<u>Cyngor Cymuned Llanfihangel Glyn Myfyr</u>
<u>Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8fed o Fai 2019</u>

Presennol - Gethin Jones Cadeirydd, Llyr Jones, Eryl Evans, Wyn Jones, Gwenan Hitchmough, Generys Roberts, Medwyn Roberts a Carol Humphreys Clerc.

Ymddiheuriadau Cynghorydd Peter Lewis.
Datgan diddordeb – dim datgan
Cofnodion blaenorol – cadarnhawyd fel rhai cywir.

Materion yn codi –

1. <u>Cyngor Conwy</u>

Y gwaith ar glawdd ger Nant y Geuryd dal heb gael ei wneud cysylltu eto.

**Yr Agenda**

1. <u>Is adran yr Urdd</u>

Yn gofyn am gyfraniad -pasiwyd i gyfrannu £100.00.

2. <u>Conwy Cynhaliol</u>

Cadarnhad ein bod wedi bod yn llwyddiannus i gael grant o £500.00 tuag gael bwrdd picnic yn y Gro a potiau blodau ir pentre.

3. <u>Y diffubulator</u>

Nodwyd bod ty larwm drws ddim yn gweithio – cysylltu a Tomos Hughes.

4. <u>Y Blwch ffon</u>

Nodwyd y buasai cael diffubulator yn y blwch ffon yn fwy addas nac ar y wal y capel cysylltu efo Rhys Jones i weld faint fuasai yn gostio iw symud.

5. <u>Torri Gwair y Mynwentydd</u>

Mae Alan Davies yn barod i ymgymeryd ar gwaith eto eleni am yr un bris a llynnedd.

6. <u>Sgip ir pentref</u>

   Pasiwyd i gael sgip ddiwedd mis Mai am ychydig o ddyddiadu yn unig.

7. <u>Awdit mewnnol</u>

Y cyfrifon yn cael ei archwilio ar hyn o bryd gan Teleri Jones.

8. <u>Y Wefan</u>

Y wefan bron yn barod dim ond ychydig o wybodaeth ei angen cyn bo'r gwaith wedi cael ei gwbwlhau gan Nick Ferguson.

<u>Gethin Jones Cadeirydd</u>